



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

Teitl: Penodiadau i'r Cabinet
Dyddiad: 10 Rhagfyr 2009
Gan: Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu bod Ei Mawrhydi y Frenhines wedi cymeradwyo'r enwebiadau ar gyfer Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion Cymru yn fy Nghabinet. Dyma'r manylion:

Mae dau Weinidog newydd yn ymuno â'r Cabinet – bydd y cyn Brif Chwip Carl Sargeant yn Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, a'r cyn Ddirprwy Weinidog dros Adfywio Leighton Andrews yn Weinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes. Mae Jane Hutt yn symud at bortffolio newydd fel Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb.

Penodwyd dau Ddirprwy Weinidog newydd yn dilyn newidiadau portffolio, gan greu dau bortffolio newydd. Bydd Lesley Griffiths yn Ddirprwy Weinidog dros Sgiliau, Arloesi a Gwyddoniaeth tra bydd Huw Lewis yn arwain portffolio newydd fel Dirprwy Weinidog dros Blant. Yn y rôl hon bydd Mr Lewis yn gyfrifol yn benodol am gydgyssylltu materion y Llywodraeth mewn perthynas â thlodi plant.

Dyma fanylion y Cabinet newydd:

Ieuan Wyn Jones

Jane Hutt

Edwina Hart

Jane Davidson

Leighton Andrews

Carl Sargeant

Elin Jones

Alun Ffred Jones

Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog
dros yr Economi a Thrafnidiaeth

Busnes a'r Gyllideb

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Materion Gwledig

Treftadaeth

Dirprwy Weinidogion

Lesley Griffiths
Jocelyn Davies
Gwenda Thomas
Huw Lewis

Sgiliau, Arloesi a Gwyddoniaeth
Tai ac Adfywio
Gwasanaethau Cymdeithasol
Plant

John Griffiths

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen
Ddeddfwriaethol

Janice Gregory

Prif Chwip